Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhaglen Diwygio Mynediad

# Bwriad y Polisi: Grŵp Arbenigol 3 Cyfathrebu Hawliau Mynediad

Ionawr 2020

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu opsiynau i ddarparu mynediad ehangach at gefn gwlad, at ddibenion hamdden.

Mae'r papur yn amlinellu nodau cyffredinol Grŵp Arbenigol 3 o ran datblygu newidiadau deddfwriaethol ac eraill yn y dyfodol o ran cyfathrebu hawliau mynediad.

## 2. Y Cefndir

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Roedd yn cynnwys diwygiadau arfaethedig yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad.
Roedd dull y Llywodraeth o weithredu cynigion Mynediad SMNR, yn dweud:

- Bod ein Polisi Adnoddau Naturiol yn dangos bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn gallu gwella iechyd corfforol a meddyliol.  Dyna pam ein bod yn ymrwymedig, fel Llywodraeth, i gynyddu mynediad i gefn gwlad a mwynhad pobl ohono er mwyn iddynt elwa ar y manteision iechyd a llesiant sy'n gallu deillio o fod yn yr awyr agored.
- Bod cefn gwlad hygyrch yn cefnogi ein hymdrechion i hybu Cymru fel cyrchfan twristiaeth.

Ar 4 Ebrill 2019, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn nodi ymateb y Llywodraeth i gynigion mynediad ym Mhennod 4. Yn y datganiad hwn, nodwyd saith cynnig yr oedd angen eu hystyried yn fanylach o ran y ffordd y dylid bwrw ymlaen â nhw.

Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i sefydlu Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (ARAG) a fyddai'n cynnwys Grŵp Llywio a tri Grŵp Arbenigol i ystyried y cynigion hyn ymhellach ac i argymell ffyrdd o'u gweithredu.

## 3. Bwriad Polisi'r Rhaglen Diwygio Mynediad (ARP)

Bwriad polisi cyffredinol y rhaglen ddiwygio yw gwella mynediad i hamdden awyr agored gan ddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad agored er mwyn cefnogi polisïau Llywodraeth Cymru mewn meysydd megis iechyd y cyhoedd a thwristiaeth. Bwriad y diwygiadau yw rhoi mwy o fynediad i'r awyr agored ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau, ac i wella'r prosesau sydd ynghlwm ar hyn o bryd wrth weinyddu a rheoli hawliau tramwy a thir mynediad.

Rôl ARAG yw ystyried yn fanwl sut y dylid gweithredu'r newidiadau mwy sylweddol i hawliau mynediad a symleiddio'r ffordd y caiff mynediad cyhoeddus ei gofnodi, ei gynllunio a'i newid.

## 4. Bwriad y Polisi ar gyfer Grŵp Arbenigol 3

Cylch gwaith Grŵp Arbenigol 3 yw ystyried yn fanwl y dulliau posibl o gyflawni bwriad y diwygiadau isod, fel y'u datblygwyd o gynigion 19 a 23 yr ymgynghoriad ar SMNR. Bwriad cyffredinol y polisi ar gyfer Grŵp Arbenigol 3 yw:

**Gwella'r broses o greu, cadw a chyfathrebu mapiau mynediad statudol a datblygu dull mwy integredig o gynllunio gwelliannau i gael mynediad i ddarpariaeth.**

Mae hyn wedi'i rannu'n ddau lif gwaith:

**Diwygiad 3a – Mapio Mynediad**
Cyflenwi system fwy integredig y gellir ei diweddaru ar gyfer mynediad cyhoeddus strategol ac ar gyfer ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd, a darparu mapiau cynhwysfawr sydd ar gael yn hawdd i'w defnyddio gan y cyhoedd.

**Diwygiad 3b - Cynlluniau Integredig**
Creu gofyniad i Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddatblygu cynlluniau integredig sy'n dangos mynediad hamdden i'r cyhoedd yn ardaloedd awdurdodau lleol i hwyluso a chefnogi darpariaeth ar draws sawl maes polisi ac integreiddio â gwasanaethau eraill.

Bwriad y diwygiadau hyn yw cefnogi nodau'r ARP a byddant yn gosod y sylfeini ar gyfer y canlynol:-

- System integredig o'r math diweddaraf i nodi, dynodi a chofnodi hawliau mynediad cyhoeddus statudol ac ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd
- Mapiau digidol cynhwysfawr, hygyrch a hawdd eu deall a gwybodaeth cysylltiedig am hawliau mynediad cyhoeddus ac ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd
- Cynllunio integredig i reoli a gwella mynediad cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol ac i hwyluso gweithio mewn partneriaeth

Wrth ystyried "hawliau mynediad cyhoeddus ac ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd", gellid rhoi sylw i:

- Mapiau tir mynediad CRoW
- Mapiau hawliau tramwy cyhoeddus diffinedig
- Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Llwybrau Cenedlaethol
- Llwybr Arfordir Cymru
- Tir comin
- Tir neu ddyfroedd mewndirol sy'n ddarostyngedig i drefniadau mynediad
- Man Agored Cyhoeddus
- Parciau Gwledig
- Coetiroedd sydd â hawliau mynediad statudol neu gytundeb mynediad
- Llwybrau eraill a hyrwyddir sydd â mynediad i'r cyhoedd
- Llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol
- Llwybrau Teithio Llesol

- Rhwydweithiau is-ffyrdd

Bydd y Grŵp Arbenigol yn ystyried goblygiadau a phroblemau gweithredu'r diwygiadau uchod, yn nodi’r rhwystrau rhag cyflenwi ac yn chyflwyno opsiynau o ran sut i oresgyn y rhwystrau hynny.

**5. Themâu trawsbynciol**

Yn ei waith, dylai'r Grŵp Arbenigol ystyried cyn belled ag y gallai y goblygiadau mewn perthynas â materion allweddol eraill gan gynnwys o ran mynediad cyfartal i'r cyhoedd, sicrhau hamdden cyfrifol, statws gweithgareddau hamdden masnachol a rôl fforymau mynediad lleol o fewn cyd-destun y diwygiadau hyn. Hefyd, dylai ystyried y cysylltiadau â diwygiadau eraill sy'n cael eu hystyried o fewn y Rhaglen Diwygio Mynediad ehangach a ffrydiau gwaith eraill Llywodraeth Cymru, megis Diwygio Rheoli Tir.

**6. Yr hyn y gellir ei gyflawni a'r amserlen**

Bydd y Grŵp Arbenigol yn cael y dasg o greu'r allbynnau canlynol a byddant yn cael eu drafftio gan ysgrifenyddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn pob cyfarfod y Grŵp Arbenigol:-

1. Papur diffinio problemau - Mawrth 2020
2. Papur opsiynau diwygio - Ebrill 2020
3. Adroddiad dadansoddi opsiynau diwygio - Gorffennaf 2020
4. Argymhelliad o'r opsiynau a ffefrir - Tachwedd 2020

Mae manylion y dogfennau uchod a'r prosesau cyfryngol i'w gweld yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect.

**7. Egwyddorion Ymgysylltu**

Wrth weithio tuag at yr allbynnau hyn, mae disgwyl i aelodau'r Grŵp Arbenigol ymgysylltu'n adeiladol yn unol â'r ymddygiadau a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Grŵp Arbenigol.

Dylai'r grŵp ystyried opsiynau gwahanol yn drwyadl ac yn deg gan barchu safbwyntiau a buddiannau gwahanol ar yr un pryd. Dylai'r opsiynau hyn cael eu profi yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir gan y Rhaglen Diwygio Mynediad ehangach fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl:

a. Graddau mynediad
b. Ansawdd mynediad
c. Parhad
d. Eglurder a Sicrwydd
e. Cost
f. Monitro a Gorfodi
g. Tegwch o ran mynediad
h. Mwy o effeithlonrwydd a thryloywder

Dylid adolygu a blaenoriaethu opsiynau yn ôl teilyngdod gan ystyried eu heffaith ar bob sector.